

## PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 15 Medi, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd. J. Aviet (Is-Gaderiudd); Cynghorwyr B.E. Brooks, C.A. Cave, S.M. Hanks, R. Nugent-Finn, A.C. Parker, S.D. Perkes a L.O. Rowlands.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio), N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau), E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio) and C. Ireland (Cyngor Dinasyddion Caerdydd a Chynrychiolydd y Fro).

### 340 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 341 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorydd J.C. Bird and W. Davies, G. Doyle, A. Raybould and H. Smith (Cynrychiolwyr Gweithgorau Tenantiaid)

### 342 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

### 343 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd J. Aviet fuddiant yn Eitem 5 ar yr Agenda - Adroddiad Interim ar Ddatblygu'r Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid a Lesddeiliaid Newydd. Natur ei diddordeb oedd ei bod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn niweidiol yn unol â pharagraff 18.3.3(b)(ii)(A) y Cyfansoddiad. Felly, arhosodd y Cynghorydd Bowen-Thomson yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd C.A. Cave fuddiant yn Eitem 5 ar yr Agenda - Adroddiad Interim ar Ddatblygu'r Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid a Lesddeiliaid Newydd. Natur ei buddiant oedd ei bod yn lesddeiliad. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn niweidiol yn unol â pharagraff 18.3.3(b)(ii)(A) y Cyfansoddiad. Felly, arhosodd y Cynghorydd Bowen-Thomson yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

#### 344 POLISI GWERTHU GORFODEDIG (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Cabinet ar 19 Gorffennaf, 2021 gan Brif Swyddog Adfywio'r Cyngor.

Esboniodd y Prif Swyddog Adfywio y problemau oedd yn cael eu hwynebu gan gymunedau lleol oherwydd eiddo gwag, y byddai'r Aelodau yn ymwybodol ohonynt, a'r effeithiau negyddol posib y gallai eiddo o'r fath gael mewn cymdogaeth.

Yr ymateb traddodiadol i eiddo gwag o'r fath, megis adeiladau masnachol neu anheddau'r sector preifat, oedd, fel y dewis olaf, cymryd camau gorfodi dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, megis Deddf Gwlad a Thref, y Deddfau Adeiladau a Thai. Byddai Rhybudd yn cael ei gyflwyno i'r perchennog a phe na bai yn cydymffurfio â'r Rhybudd, yna byddai unrhyw gostau o waith a wnaed yn arwystl ar yr eiddo. Fodd bynnag, yr oedd hyn yn golygu na fyddai unrhyw ganlyniad clir. Newidiodd y Polisi Gwerthu dan Orfodaeth trwy ddarparu deiliant oedd yn caniatáu i'r Cyngor adennill unrhyw ddyledion ar waith a wnaed ac i beri newid perchennogaeth.

Deilliodd y polisi newydd o ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, y derbyniwyd eu hargymhellion gan Lywodraeth Cymru (LIC). Y teimlad oedd bod y pwerau sydd eisoes yn bodoli ynghylch adeiladau gwag yn ddigonol, ond mai'r hyn oedd ei angen oedd cynyddu gallu a sgiliau Cynghorau Lleol i orfodi'r pwerau perthnasol. Ers hynny, roedd LIC wedi cyflwyno'r Rhaglen Cefnogi Rheoli Eiddo Gwag i Awdurdodau Lleol, ac yna yr oedd Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithio'n agos gydag arbenigwyr y diwydiant er mwyn adeiladu sgiliau a gallu swyddogion i ddefnyddio'r pwerau gorfodi oedd ganddynt yn fwy effeithiol.

Yr oedd y Polisi Gwerthu dan Orfodaeth yn ganlyniad i'r ffrwd waith hon ac yn seiliedig yn gyfreithiol ar Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925. Yr oedd hyn yn caniatáu i'r Cyngor, lle gwnaed gwaith yn niffyg a lle nad oedd y perchennog wedi talu, greu arwystl a dod yn forgeisiai gyda phwerau i orfodi gwerthiant. Byddai hyn yn rhoi'r deiliant deul o adennill y ddyled a newid perchennogaeth, a thrwy hynny ddod â'r eiddo gwag yn ôl i ddefnydd llesol. Gellid defnyddio'r polisi hwn ar y cyd â Strategaeth Cartrefi Gwag y Cyngor, er gyda'r caveat fod hyn i'w ddefnyddio fel 'dewis olaf un' a than amgylchiadau eithafol, megis eiddo wedi ei adael gan y perchennog neu lle na allai swyddogion ddod o hyd i berchennog. Er bod eiddo o'r fath yn cael effaith negyddol ar y gymuned, yr oeddent yn dal yn gymharol fach o ran nifer.

Cyn gallu gorfodi'r polisi hwn, yr oedd angen i swyddogion y Cyngor ystyried a oeddent yn bod yn rhesymol a chymesur wrth gymhwyso hyn, yn ogystal â hyfywedd

ariannol gorfodi, megis arwystlon oedd eisoes yn bodoli a'r angen i gael y tir wedi ei brisio gan syrfewr gydag achrediadau addas (er y byddai prisiau tir ym Mro Morgannwg fel arfer yn golygu na fyddai hyn yn gymaint o her ag y byddai yn rhywle arall).

Amlinellodd y Prif Swyddog Adfywio y meini prawf llym y byddai swyddogion yn eu defnyddio i'w cyflwyno fel tystiolaeth er mwyn cael caniatâd i gymhwyso'r Polisi Gwerthu dan Orfodaeth, gan gynnwys:

- Rhaid i'r cyfanswm sy'n ddyledus i'r Cyngor fod yn fwy na £500;
- Ni ddylai'r ddyled fod yn waharddedig dan statud;
- Rhaid i'r ddyled fod yn hŷn na 2 fis i roi digon o amser i berchennog eiddo i'w waredu;
- Rhaid i'r eiddo fod yn wag a dim gobaith y bydd yn cael ei feddiannu yn ystod y 6 mis nesaf;
- Os bydd modd darganfod y perchennog, rhaid iddo/i fod wedi dangos na chydymffurfiodd â deddfwriaeth yng nghyswllt yr eiddo; ac
- Na dderbyniwyd unrhyw ymateb cadarnhaol/derbyniol i lythyrau ynghylch Gwerthu dan Orfodaeth.

Mantais arall y polisi hwn fyddai ei botensial i atal perchenogion eiddo a allai fel arall adael eu hadeiladau fynd yn anghyfannedd.

Byddai'r dull o werthu eiddo o'r fath yn cael ei ystyried fesul achos, er, â siarad yn gyffredinol, mae polisiâu tebyg Cynghorau eraill yn dueddol o ffafrio arwerthiannau fel dull o werthu.

Yn olaf, o ran yr Aseiad Effaith Cydraddoldeb, y casgliad oedd nad oedd unrhyw arwydd fod mater nodweddiol gwarchoddedig yn gysylltiedig â'r Polisi arfaethedig Gwerthu dan Orfodaeth. Rhaid cymryd barn gytbwys seiliedig ar barchu hawliau perchennog yr eiddo yn erbyn buddiannau a hawliau cyffredinol cymdogion a'r gymuned gyfagos. Ychwanegodd y Prif Swyddog Adfywio y dylid cynnwys datganiad fod camau arfaethedig y Cyngor wrth arfer ei bwerau gwerthu yn gymesur yn unol â'r Ddeddf yn y ddogfen o Ddatganiad Rhesymau / Cyfarwyddyd Gwerthu dan Orfodaeth sy'n ceisio awdurdod i Werthu dan Orfodaeth.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, codwyd y cwestiynau a'r sylwadau isod gan y Pwyllgor:

- Ynghylch ymholiad y Cynghorydd Parker ynghylch nifer o syrfewyr achrededig i sicrhau prisiad cystal ag sydd modd ar unrhyw eiddo a gafwyd dan y polisi hwn, dywedodd y Prif Swyddog Adfywio y byddid yn edrych ar hyn fesul achos, ac o'r herwydd fod pob opsiwn ar agor.
- Ynghylch sylwadau'r Cynghorydd Perkes yn croesawu'r polisi hwn a'i bwysigrwydd o ran cael adeiladau, tai yn arbennig, yn ôl i ddefnydd a nifer yr adeiladau y gallai'r polisi hwn fod yn gymwys iddynt, esboniodd y Prif Swyddog Adfywio fod 800 o dai sector preifat gwag bob blwyddyn yn y Fro. Byddai'r nifer o'r cyfanswm hwnnw fyddai'n gymwys dan y Polisi Gwerthu dan Orfodaeth yn fach iawn - dyrnoid, yn wir. O ran eiddo masnachol, yr oedd

rhyw 55-60 eiddo yng nghanol trefi sydd yn wag gyda nifer bychan tebyg eto allai ddod dan y polisi.

- Canmolodd y Cynghorydd Brooks y polisi, gan amlygu'r gwaith a wnaed eisoes gan swyddogion i adfer eiddo preswyl a masnachol yn ôl i ddefnydd ar ben Heol Holltwn, y Barri.
- Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y byddai'r polisi, er mai dewis olaf fyddai, yn rhan bwysig o arfogaeth y Cyngor i gael adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd yn y Fro a gwneud i ffwrdd â 'malltod' o'r fath o gymdogaethau lleol. Yr oedd gwaith ar draws cynghorau eisoes wedi golygu bod 10% o anheddau gwag y sector preifat yn y Fro wedi eu dwyn yn ôl i ddefnydd (2020/21).
- Adeisiodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau y sylwadau uchod, ac annog y Pwyllgor i gefnogi argymhellion yr adroddiad er mwyn adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd eisoes gan y Cyngor.
- Holodd y Cadeirydd a allai'r Cyngor ystyried prynu tai gwag o'r fath er mwyn ychwanegu at stoc tai'r Cyngor, oherwydd prinder tai o'r fath yn y sector cyhoeddus. Atebodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu fod y Tîm Tai eisoes yn cynnal trafodaethau gyda'r Swyddog Cartrefi Gwag ar faterion o'r fath, ond ei bod yn anodd i'r Cyngor weithiau brynu eiddo o'r fath oherwydd gwerth y tir, disgwyliadau perchenogion / darpar-werthwyr, yn ogystal â hyfywedd/costau posib adnewyddu tai hyd at safonau SATC, ac efallai na fyddai hyn yn ddefnydd da o arian tenantiaid. Fodd bynnag, cafwyd rhai llwyddiannau, ac yr oedd llwybrau eraill i ymchwilio iddynt, fel gyda landlordiaid preifat oedd yn prynu tai gwag i'w troi yn llety dros dro i deuluoedd a phobl sengl. Hefyd, yr oedd gan yr Adran Tai £1m ar gael i brynu tai posib trwy arwerthiannau, etc. a bod potensial bellach i brynu ar stadau sydd newydd eu codi (ar y cyd â LIC).

Wedi ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO'R Polisi Gwerthu Gorfodol ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

### 345 ADRODDIAD DROS DRO AR DDATBLYGU'R STRATEGAETH YMGYSYLLTU TENANTIAID A PHRESWYLLWYR PRYDLES NEWYDD (CAT) –

Yr oedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu a'r Uwch-Reolwr Cymdogaethau, yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau am ddatblygiad y Strategaeth newydd Ymwneud â Thenantiaid a Phrydleswyr. Tynnodd sylw at ambell nod a thema oedd yn dod i'r amlwg, a gosod allan y camau nesaf o ran ffurf derfynol y Strategaeth:

- Yr oedd hwn yn ddarn strategol a phwysig o waith i'r Adran Tai (yn enwedig y Gwasanaeth Tai Cymdogaeth) a'r Cyngor yn ehangach;

- Bu ymgynghori eang gyda thenantiaid er mwyn cael adborth ar wasanaethau a meysydd lle'r oedd angen gwella;
- Yn gyffredinol, yr oedd gwasanaethau'r Cyngor i denantiaid yn perfformio'n dda, ond maes allweddol ar gyfer gwella oedd gwrando mwy ar farn tenantiaid a gweithredu arnynt;
- Byddai'r Strategaeth ddrafft yn mynd i'r Cabinet ac yna'n cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Craffu iddynt hwy ei ystyried;
- Mae'r Strategaeth Ymwneud yn awr yn cwmpasu tenantiaid a phrydleswyr fel ei gilydd am eu bod ill dau yn ddefnyddwyr gwasanaeth allweddol;
- Yr oedd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda'r Strategaeth ddrafft yn mynd i'r GLAM a'r Rhwydwaith/weithiau Lleiafrifoedd Ethnig (EMN) yn ogystal â'r Gweithgor Tenantiaid am eu cyfraniad hwy;
- Bu tenantiaid yn ganolog i ddatblygu'r Strategaeth hon a'r Strategaeth ddrafft wedi mynd at y Gweithgor Tenantiaid a Phrydleswyr mewnol, trawsadrannol;
- Byddai'r Strategaeth ddrafft hefyd yn cael ei roi ar wefan y Cyngor ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a byddai gwybodaeth bellach yn cael ei rannu ar-lein er mwyn annog cyfranogiad gan y tenantiaid;
- Byddai'r Strategaeth yn galluogi tenantiaid a phrydleswyr i 'ddweud eu dweud' a llunio a dylanwadu ar y gwasanaethau y maent wedi eu defnyddio trwy'r Cyngor;
- Bu adolygiad cynhwysfawr dros yr 8 mis diwethaf o waith ymwneud â thenantiaid a phrydleswyr, gan edrych ar yr arferion gorau o gyrff eraill er mwyn bod yn sefydliad sy'n 'gwrando'. Mae hyn wedi golygu ymgynghori yn fewnol (trwy'r staff Tai yn edrych ar gryfderau a gwendidau o'r Strategaeth Ymwneud â Thenantiaid flaenorol) ac yn allanol trwy Arolwg STAR bob dwy flynedd a chynnal arolygon gyda'r tenantiaid yn y strwythur ymwneud i weld a oeddent yn gallu dylanwadu ar wasanaethau ac i ddeall a oedd cyfranogi digidol yn ddewis iddynt yng ngoleuni'r pandemig a'r anallu i gwrdd wyneb yn wyneb;
- Lansiwyd ymarferiad proffilio tenantiaid i gysylltu â phob aelwyd berthnasol er mwyn gwirio eu manylion a'u dewisiadau o ran cysylltu yn ogystal â darganfod a oeddent yn ymwybodol o sut i ymwneud â strwythurau ymwneud â thenantiaid; awgrymodd arolwg diweddar mai dim ond 32% o 100 o denantiaid a gymerodd ran yn yr arolwg oedd yn ymwybodol o hyn;
- Edrychwyd hefyd ar y gwersi o drychineb Grenfell, gyda'r Strategaeth yn derbyn fod angen gwrando ar denantiaid a phrydleswyr;
- Yr oedd y weledigaeth yn sgil hynny am y Strategaeth yn golygu creu diwylliant lle'r oedd y Cyngor yn datblygu ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i denantiaid a phrydleswyr i gyfrannu at greu gwasanaeth sydd yn canoli ar y tenantiaid a'r prydleswyr; byddai hyn ar y cyd â diwylliant wedi ei feithrin ymysg staff tai er mwyn helpu i alluogi hyn;
- Byddai'r Strategaeth yn cynnwys pedair thema:
  - Dwyn tenantiaid a phrydleswyr i mewn i weithio er mwyn creu a datblygu ar y cyd wasanaeth sydd yn canoli ar y tenantiaid a'r prydleswyr oedd yn ystyrlon ac yn cynnig gwerth am arian. Yr oedd gweithredoedd ynghylch hyn yn golygu, er enghraifft, bod y Cyngor yn lansio grŵp trawsadrannol i rannu perchenogaeth hyn, a'r bwriad i lansio cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i denantiaid gyfranogi mwy, a gefnogwyd gan dudalen we unswydd ar wefan y Cyngor. Yr oedd y

- drafft o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth yn golygu bod staff mewnol yn gosod allan eu rolau yn ogystal â chymau penodol i denantiaid;
- Buddsoddi mewn adnoddau staff ac ariannol i alluogi datblygu gwasanaethau sy'n cael eu gyrru gan y tenantiaid a'r prydleswyr, er enghraifft trwy ddarparu hyfforddiant i'r staff ddeall sut beth fyddai cyfranogiad tenantiaid a phrydleswyr a darparu Gweithgor Tenantiaid gyda chyllideb wedi ei chostio'n llawn i fwrw ymlaen â chyfranogiad tenantiaid / prydleswyr;
- Cefnogi tenantiaid a phrydleswyr i helpu i ddylanwadu ar y gwasanaethau, prosiectau a mentrau cyfredol o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a helpu tenantiaid a phrydleswyr i wireddu eu potensial. Enghraifft o hyn fyddai datblygu model craffu wedi ei arwain gan denantiaid i gynnwys aseswyr ansawdd gwasanaeth a 'siopwyr cudd'; defnyddio tenantiaid i 'siopa'n ddirgel' am wasanaethau lle cafwyd y mwyaf o gwynion neu lle'r oedd y tenantiaid eisiau mwy o graffu. Hefyd, cynhyrchu cyhoeddiad blynyddol o'r enw 'Fe Ddywedoch Chi, Fe Wnaethon Ni', yn rhoi manylion am yr hyn a ddywedodd tenantiaid a phrydleswyr wrth y Cyngor a pha gamau / atebion a gymerwyd gan yr Awdurdod Lleol;
- Yn ychwanegol at hyn, y thema gyffredinol oedd i denantiaid a phrydleswyr i deimlo fod gwerth a chlust i'w barn, gyda'r Cyngor yn gweithredu mewn dull o wella parhaus, dysgu gwersi trwy adeiladu ar adolygiadau a rhoi adborth i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Yn gyffredinol, y sbardunau allweddol oedd cynyddu boddhad tenantiaid mewn meysydd megis gwrando ac ymateb i bryderon a cheisiadau tenantiaid a phrydleswyr.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddogion, codwyd y cwestiynau a'r sylwadau isod gan y Pwyllgor:

- Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn am y rolau a'r cyllidebau sy'n rhan o'r Strategaeth hon ac a fyddent yn dwyn tenantiaid i mewn i fodel tebyg i'r Panel Craffu Trigolion Cenedlaethol, gan fod yn 'gyfaill beirniadol' a chraffu a chynnwys nifer amrywiol o denantiaid gyda'r sgiliau perthnasol er mwyn cynrychioli eu cymunedau'n well. Dywedodd yr Uwch-Reolwr Cymdogaethau y bu gan y Cyngor yn hanesyddol gyllideb ar gyfer cyfranogi tenantiaid, ond heb graffu ganddynt; byddai'r Strategaeth yn awr yn cael ei chostio'n llawn a'i monitro gan denantiaid, trigolion a'r gweithgor mewnol o safbwynt gwerth am arian. Gweithiodd y Cyngor yn agos gyda'r Gwasanaeth Cynghori Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS), gan sicrhau bod trigolion a thenantiaid yn gallu cyrchu hyfforddiant fel rhan o'u rôl mewn cyfranogiad tenantiaid. Rhagwelwyd y byddai tenantiaid, trigolion a phrydleswyr hefyd yn gweithio'n agos gyda staff y Cyngor fel rhan o'r Strategaeth er mwyn craffu ar y gwaith a wnaed gan y Cyngor yn rhinwedd eu gwasanaeth craffu tenantiaid.
- Holodd y Cynghorydd Brooks pryd y byddai'r Strategaeth yn cael ei gweithredu. Dywedodd yr Uwch-Reolwr Cymdogaethau mai'r gobaith oedd i'r Strategaeth fynd at gyfarfod nesaf y Cabinet a'i chymeradwyo yno; yr oedd peth o waith y gweithgor mewnol a'r wefan eisoes wedi cychwyn. Ychwanegodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu y byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad statudol ffurfiol i ddechrau, yna trafod gan y Cabinet a'i

gyfeirio ymlaen i Graffu, gan obeithio ei weithredu rywbryd yn gynnar yn 2022. Hefyd, y tenantiaid yn y pen draw fyddai'n dewis drostynt eu hunain gan ba gyrff cenedlaethol neu eraill y dymument dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth.

- Gofynnodd y Cynghorydd Perkes sut y gallai'r Cyngor estyn allan a chysylltu â thenantiaid a phrydleswyr nad oeddent eisoes yn ymwneud neu oedd yn 'anodd eu cyrraedd'. Atebodd yr Uwch-Reolwr Cymdogaethau y cafwyd trafodaethau mewnol gyda'r staff ar bob lefel i annog ymwneud gan y tenantiaid a phrydleswyr trwy unrhyw gysylltiad fu ganddynt gyda'r rhain, yn ogystal â thrwy wirfoddoli a gwaith datblygu cymunedol. Fel rhan o'r Strategaeth Fuddsoddi Cymunedol, byddid yn defnyddio model newydd do ymgysylltu fyddai'n golygu mwy o ymgynghori gyda thrigolion, tenantiaid a phrydleswyr. Ychwanegodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu nad oedd un farn bendant am sut i ymwneud â thenantiaid, etc. iddynt 'agor i fyny' a thrafod gwasanaethau'r Cyngor ac y gellid gwneud hyn yn ffurfiol ac yn anffurfiol, fel trwy 'Pod Bwyd' newydd Penarth a 'Fesitvale' trwodd at y gweithgareddau garddio yng Nghwrt Crawshay yn ogystal â digwyddiadau digidol a rhithiol. Yr oedd yn bwysig fod 'pob cyswllt yn cyfrif' rhwng trigolion a'r Cyngor.
- Yn olaf, pwysleisiodd y Cynghorydd Nugent-Finn hefyd bwysigrwydd dwyn i mewn gyrff fel Y Fro Ddiogelach er mwyn ymwneud â thenantiaid a phrydleswyr.

Wedi ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – NODI'R adroddiad sy'n tynnu sylw at y themâu sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad o ymgysylltu â Thenantiaid a Lesddeiliaid a'r nodau ac amcanion drafft

### Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

### 346 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2021/22 (CAT) -

Amlinellwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu. Ei bwrbas oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad Chwarter 1 (Ch1) am y cyfnod 1 Ebrill, 2021 tan 30 Mehefin, 2021 wrth gyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflwyno Blynyddol fel y maent yn asio gydag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Gwnaed cynnydd o ran cyflawni'r ymrwymadau blynyddol sydd yn y Cynllun Cyflwyno Blynyddol (2021/22). Yr oedd y perfformiad wedi cyfrannu at statws GWYRDD cyffredinol i'r Cynllun yn Ch1.

Rhoddyd statws perfformiad Gwyrdd i 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch1 i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Yr oedd hyn yn gadarnhaol o gofio'r heriau cyson sy'n dal i godi oherwydd y pandemig.

Cafodd 97% (306 o 315) o weithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yn y Cynllun Cyflwyno Blynyddol berfformiad Gwyrdd sydd yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter; cafodd 1% (2) statws oren a rhoddwyd statws Coch i 2% (7) o weithgareddau cynlluniedig.

O'r 7 gweithred a gafodd statws perfformiad Coch yn ystod y chwarter, yr oedd 29% (2) o ganlyniad uniongyrchol i fesurau ail-flaenoriaethu gwasanaethau mewn ymateb i effaith pandemig COVID-19. O ran y meysydd hynny, lle'r oedd hynny'n briodol, yr oedd gwaith bellach wedi ail-gychwyn fel rhan o gynlluniau a strategaeth adfer. Yr oedd adroddiadau am gynnydd yng nghyswllt adfer o'r Coronafeirws yn cael eu rhoi i'r Aelodau fel rhan o'r atodiadau oedd yn mynd gyda'r adroddiad perfformiad yn y Pwyllgor Craffu, gan ganolbwyntio ar faterion perthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor.

O'r 42 mesur perfformiad chwarterol oed dyn asio gydag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol, adroddwyd data am 34 mesur lle'r oedd statws perfformiad yn gymwys. Neilltuwyd statws perfformiad Gwyrdd i 50% (17) mesur, statws Oren i 17% (6) a statws Coch i 33% (11).

O ran yr 11 mesur a gafodd statws perfformiad Coch yn ystod y chwarter, yr oedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at i 54% (6) fethu'r targed.

O ran y gweithgareddau cynlluniedig oed dyn dod dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, neilltuwyd statws perfformiad Gwyrdd i 97% (36 o 37) a statws Coch i 3% (1). O'r 7 mesur chwarterol yr adroddwyd amdanynt, neilltuwyd statws perfformiad Gwyrdd i 29% (2), a statws Oren i 43% (3), gyda 29% (2) yn cael statws Coch. O ran y 2 fesur a gafodd statws Coch, yr oedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at fethu'r targed i 1 o'r mesurau.

Yna aeth y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu ymlaen i roi manylion am yr Eithriadau Perfformiad dan gylch gorchwyl y Pwyllgor:

- O ran gweithredu'r Support Strategaeth Llety Pobl Hŷn gyda Gofal, Parod am Ofal a Chefnogaeth i gwrdd ag anghenion pobl hŷn, yr oedd 10% bellach wedi ei gwblhau, a pheth o'r oedi i'w briodoli i'r ffaith fod angen sefydlu gweithgor i ddylunio manyleb. Yr oedd hyn bellach wedi ei wneud a byddai modd mynd ymlaen i dendro. Byddai modd yn awr dal i fyny erbyn Chwarter 2;
- Ynghylch y canran o ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig oedd wedi adrodd eu bod yn teimlo'n fwy diogel oherwydd bod y targedau wedi caledu, siomedig oedd gweld cwmp i 78% ar ôl cyrraedd cyfradd boddhad o 100% yn flaenorol. Yr oedd hyn yn cyfateb i 3 ymateb anfoddhaol o 25 eiddo lle 'caledwyd y targed'. Yr oedd a wnelo 2 o'r rhain a gwaith a wnaed, lle byddid yn edrych arno eto a'i ddatrys, ac yr oedd 1 yn ymwneud â thenant oedd angen mwy o dawelwch meddwl trwy symud i eiddo arall yn y pen draw; ac
- O ran nifer y cartrefi hygyrch / addaswyd newydd a gyflawnwyd, hyd yma yr oedd 5 o'r rhain wedi eu cwblhau yn erbyn targed o 10; rhagwelwyd y byddai'r targed cyflawn wedi ei gyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, codwyd y cwestiynau a'r sylwadau isod gan y Pwyllgor:



- Dymunai'r Cyngorydd Perkes ganmol yr Adran Tai am gwblhau'r 11 tŷ yn Heol y Cwrt oedd yn cynnig llety dros dro / i'r digartref, gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern, a gofynnodd a fyddai dulliau o'r fath yn cael eu defnyddio mewn datblygiadau yn y dyfodol gyda'r un contractwyr. Esboniodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu fod y trigolion yn Heol y Cwrt yn hapus dros ben gyda'r tai yno ac y bu trafodaethau mewnol (gan gynnwys gyda'r Cabinet) oedd wedi arwain at chwilio fel mater o frys am safleoedd at y dyfodol, gan gynnwys safleoedd hen fodurdai'r Cyngor a safleoedd ar diroedd eraill. Byddid yn defnyddio dulliau adeiladu modern eto, ond byddai defnyddio'r un contractwr yn dibynnu ar lwyddo yn y broses dendro bellach. Yr oedd y Cyngor yn cyflymu eu rhaglen adeiladu mewn safleoedd fel y Barri a Phenarth ar y cyd â pharhau i gartrefu hyd at 100 o bobl mewn llety dros dro.

Wedi ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blyneddol 2021/22 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) NODI'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a chynlluniau adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.